# Disgrifiad Swydd

**CYFARWYDDIAETH:** Addysg a Chymorth i Deuluoedd

**ADRAN:** Tîm Ymyrryd yn Gynnar – Canolfan Ganolog

**SWYDD:** Uwch-weithiwr Cymorth i Deuluoedd

**GRADD Y SWYDD:** Gradd 10

**YN ATEBOL I'R:** Rheolwr Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd

---

**DIBEN Y SWYDD:**

Rheoli Gweithwyr Cymorth i Deuluoedd yn y Ganolfan Ganolog drwy ddarparu goruchwyliaeth a chymorth i staff. Cynnal llwyth achosion bach gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd sy'n hysbys i adrannau gwasanaethau cymdeithasol, gan gyflwyno ymyriadau ymatebol, hyblyg sy'n seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ddiogel a bod ganddynt fynediad at gyfleoedd a fydd yn sicrhau eu llesiant.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Goruchwylio a chynorthwyo gweithwyr cymorth i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol eraill yn unol â chyfarwyddyd y Rheolwr Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd
- Arwain ar ddatblygu gwasanaeth a thîm drwy gyfarfodydd tîm, y fforwm ymarfer a digwyddiadau sefydliadol eraill
- Bod yn atebol am ddyrannu llwythi achosion i Weithwyr Cymorth i Deuluoedd yn y Ganolfan Ganolog.
- Hwyluso ymarfer myfyriol yn y Ganolfan Ganolog gan sicrhau bod gweithwyr yn parhau i fod yn rhan annatod o arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Cynllunio, cydlynu a chyflwyno ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar sail 1:1 neu grŵp gan sicrhau bod anghenion plant a theuluoedd yn cael eu diwallu'n fwyaf effeithiol.
- Sgrinio a dyrannu atgyfeiriadau i'r ganolfan ganolog ar sail rota gan sicrhau bod achosion yn cael eu dyrannu mewn modd amserol ac effeithlon.
- Meithrin perthnasoedd adeiladol a chefnogol, proffesiynol gyda defnyddwyr gwasanaethau gan sicrhau bod anghenion a barn plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn parhau'n ganolog i ddarparu a datblygu gwasanaethau.

- Cyflawni ymyriadau wedi'u teilwra, seiliedig ar dystiolaeth i aelodau unigol o'r teulu, y teulu fel uned a gwaith grŵp thematig fel y bo'n ofynnol.
- Cynnal cofnodion cywir, cyfoes a pherthnasol o gofnodion achos a chofnodion eraill fel y nodir mewn canllawiau a gweithdrefnau adrannol gan ddefnyddio'r System Integredig ar gyfer Plant.
- Defnyddio mesurau cyn ac ar ôl ymyriad ac adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau i hwyluso gwerthusiad cadarn o ganlyniadau llywio darparu gwasanaethau yn y dyfodol.
- Paratoi a chyflwyno adroddiadau a chofnodion i safon uchel o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**GWIRIAD COFNODION TROSEDDOL (LLE Y BO'N BERTHNASOL)**

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Manyleb y Person

## Uwch-weithiwr Cymorth i Deuluoedd

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon.  Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (√).

| Priodoleddau | Gofynion | Meini Prawf Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, addysg a hyfforddiant** | • Addysg i lefel gradd mewn maes cysylltiedig neu'n gallu dangos cymhwysedd drwy brofiad. | √ | Cyflwyno Tystysgrifau Cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a phrofiad** | • Profiad o weithio yn y sector iechyd, gofal cymdeithasol neu wirfoddol gyda phlant a phobl ifanc sy'n hysbys i adrannau gwasanaethau cymdeithasol.<br>• Profiad o oruchwylio ac ysgogi staff.<br>• Profiad o weithio ar draws adrannau/sectorau.<br>• Profiad o waith uniongyrchol gyda phobl i sicrhau newid cadarnhaol.<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferol o'r fframwaith deddfwriaethol a rheoliadol sy'n sail i waith gyda phlant a'u teuluoedd gan gynnwys gweithdrefnau ac arferion amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed gan gynnwys y System Derbyn Gofal.<br>• Profiad o weithio seiliedig ar dystiolaeth gyda phlant a theuluoedd a/neu gyflwyno rhaglenni rhianta seiliedig ar dystiolaeth.<br>• Profiad o adeiladu perthnasoedd gwaith adeiladol yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch o fewn ffiniau proffesiynol. | √<br>√<br>√<br>√<br>√ | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau a rhinweddau personol** | • Ymateb i argyfwng mewn modd amserol ac effeithiol gan sicrhau bod cymorth yn cael ei gynnig ar yr adeg gywir a heb oedi.<br>• Gallu mynd ati'n hyderus ac yn greadigol i gynnwys staff a datblygu arfer i ddiwallu anghenion plant a theuluoedd yn fwyaf effeithiol.<br>• Gallu cynorthwyo plant, pobl ifanc a rhieni a staff i nodi meysydd ar gyfer newid a gweithredu strategaethau i wella canlyniadau a meithrin cydnerthedd.<br>• Gallu herio a chynorthwyo asiantaethau a sefydliadau i weithredu er mwyn sicrhau gwelliant.<br>• Gallu arwain o fewn tîm amlasiantaethol, rhannu gwybodaeth yn briodol a chydweithio fel y nodir gyda chydweithwyr o amrywiaeth o gefndir a disgyblaeth.<br>• Gallu rheoli gofynion amrywiol a gwahanol a lefelau sylweddol o bwysau.<br>• Gallu dadansoddi gwybodaeth a chyfathrebu'n glir ar lafar ac yn ysgrifenedig.<br>• Gallu gweithio o safbwynt seiliedig ar gryfderau, gwrthwahaniaethol.<br>• Sgiliau TG a threfnu da.<br>• Gallu gweithio oriau'n hyblyg gan gynnwys gyda'r hwyr ac ar benwythnosau yn ôl yr angen er mwyn cynnal gwasanaeth ymatebol.<br>• Ymrwymiad i ddysgu a datblygu parhaus wrth gymhwyso arferion plant a theuluoedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth.<br>• Mae angen i ymgeiswyr feddu ar drwydded yrru ddilys lawn y DU a bod yn barod i ddefnyddio eu cerbyd eu hunain ar deithiau busnes swyddogol.<br>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg | √<br>√<br>√<br>√<br>√ | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |